| | |
|---|---|
| **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** | Eich enw:<br><br>Sefydliad (lle bo'n berthnasol):<br><br>e-bost / rhif ffôn:<br><br>Eich cyfeiriad: |

## Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

***Cwestiwn Un yr Ymgynghoriad:***

***a) Beth yw eich barn ynghylch a ddylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau yn fras â phrif gynghorau?***

***a) A ydych yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael yr un fframwaith llywodraethu a threfniadau gweinyddol, yn fras, â phrif gyngor, cyn belled â bod hyn yn gymesur? Nodwch eich rhesymau.***

***b) A ydych yn cytuno y dylai aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael disgresiwn priodol o ran manylion y trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol? Nodwch eich rhesymau.***

(a) Mae'r statws corfforaethol yn golygu fod dal asedau a chyflogi staff yn deillio ac yn un o'r prif fanteision ymarferol o fabwysiadu'r model . Mae'r rheoliadau yn ddiffinio eu swyddogaethau ond cytunir y dylent gael yr hyblygrwydd o ran pwerau atodol megis Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 er enghraifft . Dylent hefyd fod yn ddarostyngedig i'r un trefniadau o safbwynt mynediad y wasg a'r cyhoedd i'w cyfarfodydd.

(b) Mae'r cyd –berthynas rhwng CBC a'r awdurdodau yn parhau yn annelwig yn y rheoliadau. Yn benodol felly er enghraifft gellir amlygu nad yw CBC wedi eu cynnwys ymhlith y cyrff penodol sydd yn ddarostyngedig i drefniadau craffu dan Rhan II o Deddf Lywodraeth Leol 2000. Dylai corff sydd yn arddel pwerau sylweddol o ran polisi a strategaeth a dyrannu cyllid fod yn ddarostyngedig i drosolwg a chraffu a threfniadau archwilio trylwyr ac annibynnol oddi wrth y penderfynwyr.

(c) Derbynnir fod elfen o ddisgresiwn o fewn trefniadau llywodraethu yn caniatáu gweithredu ystwyth a hyblyg. Ond, mae'n allweddol nad yw hyblygrwydd o'r fath yn cael ei weithredu heb gonsensws ymhlith aelodau etholedig ynglŷn a'r cyfeiriad. Yn ogystal nad yw yn caniatáu gwanio neu dynnu i ffwrdd elfennau hanfodol o llywodraethant da a chadarn. Mae'r ffordd yma o drefnu eisoes yn greiddiol i drefniadau cyd-weithredol.

DRAFT

*Cwestiwn Dau yr Ymgynghoriad:*

***Mae Arweinwyr llywodraeth leol wedi cytuno mai'r ardaloedd hyn yw'r rhai mwyaf priodol ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn adlewyrchu'r swyddogaethau a roddir iddynt gan y Rheoliadau Sefydlu hyn. A oes gennych unrhyw sylwadau neu arsylwadau am ardaloedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn mewn perthynas â'u swyddogaethau neu ddatblygiad Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y dyfodol?***

***Mater i'r Cabinet***

*Cwestiwn Tri yr Ymgynghoriad:*

***a) A ydych yn cytuno â'r dull o ddatblygu'r rheoliadau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn? Nodwch eich rhesymau.***

***b) Rydym wedi nodi drwy gydol y ddogfen hon yr hyn sy'n debygol o gael ei gynnwys yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn. Er nad y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol yw pwnc yr ymgynghoriad hwn, er mwyn llywio eu datblygiad a oes gennych unrhyw farn am unrhyw beth arall a ddylai gael ei gwmpasu?***

(a) Mae'r cysyniad o Reoliadau Cyffredinol ar gyfer CBC yn synhwyrol er sicrhau cysondeb o ran y model ond hefyd o ran ymgorffori materion sydd yn gyffredinol i lywodraeth leol megis trefniadau craffu a chodau ymddygiad.

(b) Amlygir y materion ychwanegol yn yr ymateb I'r ymgynghoriad ond mae rhai materion yn gorgyffwrdd a Deddfwriaeth arall yn hytrach na'r Rheoliadau.

*Cwestiwn Pedwar yr Ymgynghoriad:*

***a) A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o bennu aelodaeth Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys cyfethol aelodau ychwanegol? Nodwch eich rhesymau.***

***b) Beth yw eich barn am y rôl a gynigir ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel y disgrifir uchod?***

(a) Mae'r ddogfen ymgynghorol yn amlygu rôl allweddol yr Arweinwyr ar y CBC ac yn benodol felly eu hatebolrwydd i'r cynghorau cyfansoddol am waith y CBC. Maent hefyd yn cynrychioli atebolrwydd democrataidd y CBC. Felly, mae ychwanegu aelodau pleidleisio ychwanegol yn gam arwyddocaol o safbwynt y CBC a'r cynghorau cyfansoddol. Mae'n allweddol er hygrededd y CBC fod hyn yn dryloyw ac yn derbyn cefnogaeth y cynghorau cyfansoddol o ran niferoedd ac o blith pa garfan.

(b) Gan fod y Cynllun Datblygu Strategol yn berthnasol i'r Parciau Cenedlaethol mae'r hyn a gynigiwr yn lled ddilyn. Mae angen fodd bynnag dal sylw at y dyletswydd sydd ar Awdurdod Parc Cenedlaethol dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwald 1949 i weithredu amcanion y dynodiad

Parc Cenedlaethol a sut fydd yn hyn yn cael ei adlewyrchu yng nyletswyddau perthnasol y CBC.

### *Cwestiwn Pump yr Ymgynghoriad:*

**a)** ***Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o 'un bleidlais fesul aelod' a'r hyblygrwydd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fabwysiadu gweithdrefnau pleidleisio amgen?***

**b)** ***Beth yw eich barn am y cworwm arfaethedig ar gyfer Cyd-bwyllograu Corfforedig?***

**c)** ***Beth yw eich barn am y dull arfaethedig ar gyfer hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig o Gyd-bwyllgor Corfforedig?***

(a) Rydym yn cefnogi yr egwyddor o un bleidlais fesul aelod ond fel y nodir uchod mae hygrededd democrataidd y CBC arfaethedig yn seiliedig ar benodiad aelodau etholedig. Mae unrhyw drefniadau sydd yn gorbwyso neu yn erydu yr egwyddor yma yn tanseilio y egwyddor creiddiol yma. Felly mae rhoi hawl pleidleisio i aelodau cyfetholedig angen ei weinyddu mewn modd gofalus a phriodol..

(b) Cydnabyddir fod y cworwm o ystyried y cyfrifoldebau arfaethedig yn briodol. Fod bynnag gan ddal sylw at Ogledd Cymru er enghraifft mae 70% yn golygu 5/6 aelod all olygu ar adegau oherwydd datgan buddiant neu absenoled na fydd modd cael cworwm a gall hynny fod yn oherwydd ffactorau fyddai yn parhau am gyfnod. Felly dylid darparu ar gyfer dirprwyon enwebedig o statws cyffelyb.

### *Cwestiwn Chwech yr Ymgynghoriad:*

***Beth yw eich barn am alluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyfethol aelodau eraill a/neu benodi pobl i eistedd ar is-bwyllgorau?***

Cydnabyddir fod cyfethol yn gallu bod yn gyfrwng i ychwanegu at arbenigedd a chynnwys budd ddeiliaid ehangach. Fel yr amlygir y cydbwysedd priodol o ran atebolrwydd democrataidd sydd yn allweddol.

### *Cwestiwn Saith yr Ymgynghoriad:*

***a) A ydych yn cytuno y byddai'r dull o gyfethol aelodau yn golygu bod modd cael mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid yng ngwaith Cyd-bwyllgor Corfforedig?***

***b) Beth allai fod ei angen i gefnogi aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig i gynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid priodol .yn eu gwaith?***

(a) Eto mae'n fater o sicrhau fod yr egwyddor atebolrwydd democrataidd yn cael ei gyfarch ac nad yw canran yr aelodaeth cyfetholedig pleidleisio mewn sefyllfa i wyrdroi cyfeiriad a ddymunir gan aelodau etholedig. Felly, er enghraifft dylid ystyried priodoldeb eu cynnwys yn y cworwm.

(a) Mae sawl agwedd i ymgysylltu o'r fath sydd yn deillio yn aml o ran y gofynion sydd o amgylch y swyddogaethau megis dyletswyddau ymgynghori ac ymgysylltu. Mae rhan ddeiliad priodol yn gysyniad eang ac angen cyfarch nid yn unig cynrychiolwyr sectorau perthnasol ond y cyhoedd yn gyffredinol. Er enghraifft gellir cyplysu hyn gyda'r cysyniad o Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd sydd i'w gael yn y Ddeddf.

### *Cwestiwn Wyth yr Ymgynghoriad:*

***a) A ydych yn cytuno y dylai aelodau a staff Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yn ddarostyngedig i God Ymddygiad ac y dylai'r cod fod yn debyg i'r hyn a geir mewn Prif Gynghorau? Nodwch eich rhesymau.***

***b) Beth yw eich barn am fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cyfetholedig?***

***c) A ddylai pob aelod cyfetholedig fod yn ddarostyngedig i'r cod, h.y. y rhai sydd â'r hawl i bleidleisio a'r rhai nad oes ganddynt hawl i bleidleisio?***

(a) Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer cyflogeion llywodraeth leol cymwys yn berthnasol ( gyda rhai eithriadau penodol) i holl deulu llywodraeth leol. Ni welir rheswm pam na ddylai staff CBC gael eu cynnwys. Byddai angen addasu y rheoliadau 2001/2280 i'w cynnwys.

(b)(c) Mae'r Cod Ymddygiad Model ar gyfer aelodau etholedig eisoes hefyd yn berthnasol i aelodau cyfetholedig gyda pleidlais sydd yn eistedd ar bwyllgorau cynghorau cyfansoddol. Mae'r cwestiwn yma yn amlygu mater ehangach sef a fyddai CBC yn dod yn rhan o'r fframwaith foesegol dan ddarpariaethau Rhan III o Deddf Llywodraeth Leol 2000. Yn absenoldeb Cod Ymddygiad penodol byddai aelodau etholedig yn ddarostyngedig i Gòd Ymddygiad eu cyngor ac felly yn gweithredu o ran cwynion a datrysiad drwy eu hawdurdod. Mae'n anodd gweld senario lle byddai fframwaith amgen ar gyfer CBC fyddai yn eu tynnu allan o Ran III Deddf 2000. Fodd bynnag o fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cyfetholedig dan Rhan III byddai angen trefniadau statudol ar gyfer ymdrin a gollyngiadau o'r Cod - ymchwilio a dyfarnu cwynion a.y.b. ynghyd ag awdurdodaeth yr Ombwdsman. .

### *Cwestiwn Naw yr Ymgynghoriad*

***a) Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o bennu gofynion cyllidebol Cyd-bwyllgor Corfforedig?***

***b) Beth yw eich barn am yr amserlenni a gynigir (gan gynnwys ar gyfer y flwyddyn gyntaf) ar gyfer pennu'r gofynion cyllidebol a fydd yn daladwy gan y prif gynghorau cyfansoddol?***

(a) Mae angen rhoi mwy o sylw ac eglurder ac amserlen flynyddol sydd ddigon buan i ganiatáu i bartneriaid sydd yn ariannu i gynnwys symiau yn eu cyllidebau am y flwyddyn ganlynol e.e. erbyn Hydref cyn y flwyddyn ariannol ddilynol.

DRAFT

(b) Mae hyn yn hollol anymarferol fel proses ac amserlen mewn cyd –destun cyllido llywodraeth leol. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried trefniadau i ariannu y cyfnod sefydlu.

### *Cwestiwn Deg yr Ymgynghoriad*

***a) A ydych yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion â phrif gynghorau o ran arferion cyfrifyddu? Nodwch eich rhesymau.***

***b) A ydych yn cytuno y dylai manylion am y ffordd y dylai Cyd-bwyllgor Corfforedig reoli ei arferion cyfrifyddu gael eu cynnwys yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol? Os nad ydych yn cytuno, beth arall fyddai angen ei gynnwys yn y Rheoliadau Sefydlu?***

(a) Dylai'r CBC gydymffurfio â'r un gofynion â chyd-bwyllgorau eraill, gan roi sylw i lefel 'trothwy' (materiality) i sicrhau cysondeb a rhesymoldeb e.e. rhwng CBC llai ei faint a CBC mwy o ran maint.

(b) Cytuno.

### *Cwestiwn Un ar Ddeg yr Ymgynghoriad:*

***Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o ymdrin â materion staffio a materion y gweithlu?***

Mae'n synhwyrol fod amodau a thelerau cyflogi staff y CBC yn cyd fynd a'r hyn a geir yn y rhanbarth.. Bydd gofyn dal sylw at faterion megis tal cyfartal a chymariaethau ar draws y cyrff wrth fathu manylion y drefn.

Gan y gellir rhagweld y gall swyddi drosglwyddo i'r CBC mae'n briodol fod egwyddorion "TUPE " yn berthnasol ynghyd a'r Cyfarwyddyd Trosglwyddo Staff Awdurdodau Cymru ( Pensiynau) 2012. O ganlyniad mae angen ystyried trefniadau pensiwn a sut fydd y CBC yn mynd ati i ymuno a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a pha gronfa bensiwn fydd yn berthnasol.

### *Cwestiwn Deuddeg yr Ymgynghoriad:*

***Beth yw eich barn mewn perthynas â'r gofyniad i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael neu gael mynediad at "swyddogion gweithredol" statudol"?***

Cytuno fod angen i'r CBC benodi Prif Swyddog ynghyd a Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 . Fodd bynnag dylai union natur y penodiad fod yn fater i'r CBC benderfynu arno boed hynny yn staff, secondiad neu drefniant arall priodol. Byddai hyn yn caniatáu i'r ddarpariaeth adlewyrchu gofynion ac adnoddau y Cyd Bwyllgor ar y pryd.

***Cwestiwn Tri ar Ddeg yr Ymgynghoriad:***

***A oes gennych unrhyw farn arall am y ddarpariaeth ar gyfer materion staffio neu faterion y gweithlu o fewn y rheoliadau sefydlu?***

Gweler yr ymateb i Gwestiwn Un ar Ddeg

***Cwestiwn Pedwar ar Ddeg yr Ymgynghoriad:***

***a) A yw'n glir pa swyddogaethau y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu harfer o ganlyniad i'r rheoliadau sefydlu hyn? Os nad yw, pam?***

.

***b) A oes angen i'r Rheoliadau Sefydlu ddweud mwy am drefniadau cydredol? Os felly, beth arall sydd ei angen, neu a ddylid gadael hynny i'w benderfynu'n lleol?***

***c) A oes unrhyw swyddogaethau y gallai fod yn briodol eu hychwanegu at gylch gwaith Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y dyfodol? Os oes, pa rai?***

(a) Ni ddylai y Rheoliadau Sefydlu fynd ati i geisio deddfu ynglŷn a hynt trefniadau lleol cyfredol dylid gadael hyn i drefniadau lleol . Fel arall gall arwain at ansefydlogi a thanseilio anfwriadol o drefniadau fyddai yn adweithio yn negyddol ar eu gallu i gyflawni a chreu risgiau.

(b) Mae'r swyddogaethau sydd yn cael eu mandadu yn seiliedig ar ddarpariaethau statudol penodol iawn .

(c) Ar hyn o bryd ystyrir y byddai yn rhesymol mynd ati i weld pa mor effeithiol yw'r model a sut mae'n gweithio cyn awgrymu ehangu ei swyddogaeth. Mae darpariaeth o fewn y Ddeddf i gynghorau gytuno ar gynigion ar gyfer swyddogaethau amgen i'w rhoi ymlaen.

***Cwestiwn Pymtheg yr Ymgynghoriad:***

***A ydych o'r farn y dylai'r rheoliadau ddarparu i unrhyw beth fod yn benderfyniad a gedwir yn ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn hytrach na chael ei ddirprwyo i is-bwyllgor? Os felly beth?***

Dylai penderfynu ar brif faterion strategol a pholisi ynghyd a'r Gyllideb a materion cyfansoddiadol a rheolau sefydlog gael eu cadw yn ôl i'r CBC.

***Cwestiwn Un ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:***

***Beth yw eich barn am y dull o drosglwyddo'r broses o arfer swyddogaethau i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig?***

Sefydlir y CBC gan Lywodraeth Cymru a bydd angen trefniadau cytunedig mewn lle ar gyfer gweithredu trosglwyddiadau o fewn y cyfnod sefydlu.

Cyfeirir yn benodol at y pŵer llesiant economaidd, maes lle fydd y CBC yn anorfod yn gorfod cyd-weithio gyda'r cynghorau cyfansoddol. Bydd angen

DRAFT

dod i gytundeb ynglŷn a sut fydd y rôl yma yn cael ei gyflawni. Nid yw yn ymddangos fod Deddfau Llywodraeth Leol 1972 a 2000 yn rhestru CBC fel corff y gall Cyngor ddirprwyo iddo. Felly croesawir y gosodiad yn y ddogfen ymgynghorol fod angen gwaith ac ystyriaeth gofalus ynglŷn a sut fydd y swyddogaeth yma yn cyd-eistedd d a threfniadau lleol sydd eisoes mewn lle. Mae'n bwysig adnabod hefyd y byddai trosglwyddo mater megis Bargen Twf sydd yn bartneriaeth rhwng ystod o gyrff gyda oblygiadau cyflawni a threfniadau ariannu cymhleth yn golygu swmp o waith ac adnoddau i sicrhau fod hyn yn cael ei gyflawni yn briodol a llyfn o fewn y fframweithiau cytundebol sydd eisoes mewn lle.

DRAFT

### *Cwestiwn Dau ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:*

***Beth yw eich barn am wneud Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cyrff cyhoeddus ehangach, fel y disgrifir uchod?***

Cytuno y dylent fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau statudol cyffredinol sydd yn berthnasol i gorff cyhoeddus ( llywodraeth leol ) Cymreig.

### *Cwestiwn Deunaw yr Ymgynghoriad:*

***a) Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i barhau i gydweithio'n agos â llywodraeth leol i sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. A oes gennych unrhyw farn ar y ffordd orau o gyflawni hyn?***

***b) Yn eich barn chi, pa ofynion / elfennau craidd sydd angen bod ar waith er mwyn sicrhau bod Cyd-bwyllgor Corfforedig yn weithredol ac yn arfer ei swyddogaethau?***

***c) Yn benodol, beth sydd angen bod ar waith cyn i Gyd-bwyllgor Corfforedig gyfarfod am y tro cyntaf, ar ddiwrnod ei gyfarfod cyntaf ac ar ôl hynny?***

(a) (b)(c) Fel y nodir uchod mae angen trefniadau rhanbarthol er cyfarch y gwaith yma o'r dechrau ynghyd ag adnoddau digonol o ran staff ac arbenigedd. Disgwylir fod Llywodraeth Cymru a rôl ganolog yn y gwaith yma. Ni ellir cymryd yn ganiataol fod y capasiti o ran niferoedd nac arbenigedd ar gael i ymgymryd a'r gwaith yma heb recriwtio.

O safbwynt amseru trosglwyddo rhaid dwyn mewn cod fod trefniadau cyd weithio o unrhyw sylwedd yn cael eu sefydlu ar sail cysgodol yn arferol er caniatáu amser ar gyfer cynllunio a sefydlu y trefniadau sydd yn caniatáu iddynt ddod yn weithredol ar ddiwrnod penodol. Gellir rhagdybio y bydd cyfnod o sefydlu staff ac adnoddau yn dilyn o gyfarfod cyntaf y CBC ( sydd yn hynod o heriol). Ni fyddai yn ymarferol i'r CBC fod yn ymgymryd a dim ond gwaith sefydlu yn ystod y flwyddyn ariannol gyntaf.

### *Cwestiwn Pedwar ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:*

a) ***A ydych o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ar sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig?***

b) ***A oes unrhyw feysydd penodol y dylai'r canllawiau eu cwmpasu?***

(a) Ydym mae nifer o faterion sydd  angen esboniad ac arweiniad o safbwynt gweithredu y rheoliadau arfaethedig.

(b) Gellir ystyried materion megi y cyd-berthynas gyda'r cynghorau cyfansoddol a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, gweithredu y trefniadau a hawliau o amgylch llywodraethu a materion cyllid a staff.

***Cwestiwn Ugain yr Ymgynghoriad:***

a) ***Beth yw'r ffordd orau i Lywodraeth Cymru gefnogi prif gynghorau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig?***

b) ***A oes meysydd y dylai Llywodraeth Cymru eu blaenoriaethu ar gyfer cymorth?***

c) ***A oes unrhyw beth y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig ei wneud/peidio â'i wneud nad yw'r Rheoliadau Sefydlu hyn yn darparu ar ei gyfer ar hyn o bryd?***

Mae gan Llywodraeth Cymru rôl ganolog yn sefydlu y CBC's a dylai fod yn cefnogi eu sefydlu drwy ddarparu adnoddau ar gyfer cyflawni hyn. Eto tynnir sylw nad yw yn dilyn fod gan awdurdodau lleol y capasiti o ran amser nac arbenigedd rhydd i ddarparu yr adnoddau staff ac arbenigedd byddai CBC ei angen yn y cyfnod sefydlu. Ni ellir anwybyddu yr her yma.

***Cwestiwn Un ar Hugain yr Ymgynghoriad:***

a) ***A ydych yn cytuno â'n hasesiad o effeithiau tebygol y rheoliadau a'n dull o ymdrin â nhw? Esboniwch eich ymateb.***

b) ***A oes gennych unrhyw ddata ychwanegol/amgen er mwyn helpu i lywio'r asesiad terfynol o gostau a manteision sydd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol?  Os oes, rhowch fanylion.***

***I'w gwblhau***

**Cwestiynau am y Gymraeg**

***Cwestiwn Dau ar Hugain yr Ymgynghoriad:***

a) ***Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu cael ar y Gymraeg - yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.***

b) ***Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi?  Sut y gellid cynyddu'r***

***effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?***

Dylent fod yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Iaith yn benodol Safonau Iaith a hynny o'r cychwyn gan y bydd hyn yn greiddiol o benderfyniadau recriwtio staff a threfniadau llywodraethu a chyfathrebu

***Cwestiwn Tri ar Hugain yr Ymgynghoriad:***

***Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a sut y gellid atal unrhyw effeithiau andwyol o ran y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.***

Dylent fod yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Iaith yn benodol Safonau Iaith a hynny o'r cychwyn gan y bydd hyn yn greiddiol o benderfyniadau recriwtio staff a threfniadau llywodraethu a chyfathrebu

***Cwestiwn Pedwar ar Hugain yr Ymgynghoriad:***

***Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:***

---

**Mae'r ymatebion i ymgynghoriad yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.  Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:**

DRAFT